



Y CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWIYD O BELL DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 9 MAWRTH 2022 AM 10.30A.M.

PRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) – Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol a Thai), N. George (Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), J. Pritchard (Isadeiledd ac Eiddo), Mrs E. Stenner (Perfformiad, yr Economi a Menter), R. Whiting (Dysgu a Hamdden) ac A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a Ffilyd).

Ynghyd â:

D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi a'r Amgylchedd), ac S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog S151).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), S. Richards (Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Pennaeth Gwasanaethau Plant), J. Pearce (Swyddog Rheoli Perfformiad), A. Cullinane (Uwch Swyddog Polisi), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio Cymunedau), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), P. Griffiths (Rheolwr Strategaeth Mannau Gwyrdd a Mynwentydd), D. Thomas (Cynorthwydd Cynllunio Cefn Gwlad), M. Harris (Swyddog Cymorth/Gyrrwr y Pwyllgor) ac M. Afzal (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

A

Cynghorydd C. Mann.

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, fodd bynnag, byddai recordiad ar gael ar ôl y cyfarfod drwy wefan y Cyngor – [Cliciwch Yma i'w Weld](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

3. CABINET – 23 Chwefror 2022

PENDERFYNWYD i gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn cynnwys yr adroddiadau a drefnwyd hyd at 6 Ebrill 2022. Atgoffwyd yr Aelodau fod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen waith a'i bod yn debygol o gael ei newid.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i nodi'r Blaenraglen Waith. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddangos dwylo.

PENDERFYNWYD y byddai Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei nodi.

5. HWB DYSGU A CHYMORTH CYMUNEDOL YN LLYFRGELL RHYMNI

Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar arian cyfatebol ar gyfer cais a gyflwynwyd i Raglen Grant Cyfalaf Trawsnewid Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â chreu hwb dysgu/cymunedol yn Llyfrgell Tref Rhymni.

Gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet nodi'r bwriad i'r Gwasanaeth Llyfrgell weithio gyda Heddlu Gwent i atgyfnerthu ymgysylltiad cymunedol drwy ddefnyddio lleoliadau anffurfiol, er enghraifft Llyfrgell Rhymni, Llyfrgell Rhisga a Llyfrgell Caerffili. Byddai'r prosiect yn cynnwys cadw ac arddangos Casgliad Idris Davis, ailgynllunio'r ddau lawr, uwchraddio'r lifft, manau cyfarfod, ystafelloedd cymunedol, hyfforddiant digidol, cyfleusterau fideo-gynadledda, uwchraddio'r Wi-Fi, lolfâ gliniaduron cyhoeddus a Gofod newydd i Blant, Gofod y Gymraeg a mynediad at lawer o wasanaethau'r Cyngor. Byddai cyfleoedd hefyd i bartneriaid ddefnyddio'r agenda, gan gynnwys Heddlu Gwent, gofod ar gyfer lluniaeth a byddai'r prosiect hefyd yn datblygu nodau niwtraliaeth carbon y Cyngor drwy osod manau gwefru cerbydau trydan yn y maes parcio.

Croesawodd yr Aelodau y buddsoddiad a nodwyd y bwriad i'r Gwasanaeth Llyfrgell weithio gyda Heddlu Gwent, oherwydd byddai hyn yn atgyfnerthu'r cysylltiadau gyda'r gymuned a chydâ rhanddeiliaid eraill. Datganwyd bod 'angen mawr' am y cyllid a ddyrannwyd a'r gobaith oedd y byddai'r preswylwyr yn croesawu'r ailddatblygiad yn Llyfrgell Tref Rhymni.

Ystyriwyd bod y gwaith ar y cyd gyda Heddlu Gwent a rhanddeiliaid yn hollbwysig a'r gobaith oedd y byddai'r gwaith hwn yn atgyfnerthu'r cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach. Ymhellach, disgrifiwyd y dull cydweithredol fel y ffordd orau ymlaen yn nhermau'r defnydd a wneir o'r adeiladau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog:-

1. I gytuno i gymeradwyo dyraniad o £109,000 o gronfa wrth gefn y Cyngor sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer llunio lleoedd, er mwyn sicrhau y gall y cynllun arfaethedig fynd

yn ei flaen, yn amodol ar gadarnhad o gyllid Llywodraeth Cymru a ddisgwyliwyd yn yr wythnos yn dechrau 21 Mawrth 2022.

2. Nodi'r bwriad i'r Gwasanaeth Llyfrgell weithio gyda Heddlu Gwent i atgyfnerthu ymgysylltiad cymunedol drwy ddefnyddio lleoliadau anffurfiol yn Llyfrgell Rhymni, Llyfrgell Rhisga a Llyfrgell Caerffili.

6. DIWEDDARIAD CHWE MIS YR ASESIAD O BERFFORMIAD CORFFORAETHOL 2021

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn darparu diweddariad ar yr Aseiad o Berfformiad Corfforaethol sy'n rhan o Fframwaith Perfformiad y Cyngor, ar ôl ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar Bolisi ac Adnoddau ar 22 Chwefror 2022.

Nodwyd bod perfformiad pob cyfadran wedi'i gyflwyno i bob Pwyllgor Craffu ac maent wedi'u craffu'n drylwyr. Mae'r Aseidiadau yn darparu crynodeb o wybodaeth a dadansoddiad ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2021 i fis Medi 2021. Cyngorwyd y Cabinet fod y sylwadau gan y Pwyllgorau Craffu wedi'u bwydo i'r Aseidiadau o Berfformiad Corfforaethol a chyfeiriwyd at drafodaethau'r Pwyllgor Craffu ar Bolisi ac Adnoddau, a oedd wedi canolbwyntio ar lefelau salwch, lles ac effaith Covid.

Rhoddodd aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol ddiweddariad i'r Cabinet ar eu meysydd gwasanaeth perthnasol hwy.

Disgrifiodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai gynnydd ei faes gwasanaeth yn nhermau Safon Ansawdd Tai Cymru. Cadarnhawyd bod cynnydd da wedi'i wneud ac, o ganlyniad, gallai'r Tîm gyhoeddi bod rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2021.

Tynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai sylw'r Aelodau at yr heriau yn nhermau digartrefedd a'r pwysau cynyddol yr oedd lefelau uwch yn ei osod ar systemau, fodd bynnag, roedd Swyddogion yn gweithio'n weithredol yn y maes hwn ac yn arbennig gyda'r bobl hynny a oedd yn cyflwyno eu hunain yn wirfoddol ddigartrefedd lle'r oedd llawer iawn o waith yn cael ei wneud. Nodwyd mai un maes allweddol o'r gwaith hwn oedd cael mynediad at grantiau a budd-daliadau nad oedd pobl yn ymwybodol ohonynt o bosibl a chyfeiriwyd at yr £1.4 miliwn a oedd wedi'i gyrchu gan yr adran rhenti i helpu pobl â beichiau ariannol aelwyd, ac yn benodol teuluoedd incwm isel. Yn ogystal, cadarnhawyd y byddai'r £1.4 miliwn hwn yn cynyddu i £3 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac y byddai hyn yn cael effaith arwyddocaol.

O safbwynt y Gwasanaethau Cymdeithasol, pwysleisiwyd y pwysau sylweddol yn nhermau Gofal Cartref, gyda nifer yr atgyfeiriadau ac aseidiadau yn parhau i fod yn gymharol wastad a nodwyd bod 74 o bobl yn aros am becynnau gofal ar hyn o bryd. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y ffigur hwn ychydig yn uwch dros gyfnod y Nadolig, ond bod ymdrechion y tîm wedi lleihau'r niferoedd.

Yn nhermau Gwasanaethau Plant, cyngorwyd y Cabinet er nad oedd yr ystadegau wedi cynyddu, roedd natur gymhleth yr achosion a'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r achosion hynny yn fwyfwy heriol wrth i fwy o bobl ifanc gyflwyno gydag anghenion llawer mwy cymhleth.

Amlinellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Cyfadran yr Economi a'r Amgylchedd y cynnydd a wnaed yn nhermau ei faes gwasanaeth a chanmolwyd y staff am lwyddo i gynnal gwasanaethau rheng flaen yn ddi-dor ar hyd y pandemig. Canmolwyd ymdrechion y staff a oedd o dan y pwysau mwyaf yn nhermau'r pandemig yn lechyd yr Amgylchedd, Diogelu'r Cyhoedd a Safonau Masnach a oedd wedi bod yn ganolog wrth reoli'r pandemig, wrth ddelio â rheoli'r pandemig a gorfodi. Pwysleisiwyd yr heriau yn nhermau datgarboneiddio, yn benodol wrth i'r prisiau ynni godi, cyflwyno'r seilwaith gwefru cerbydau trydan.

Nodwyd bod recriwtio a chadw staff technegol allweddol yn parhau i fod yn her, fodd bynnag nodwyd bod hyn yn her genedlaethol.

Cyfeiriwyd at yr heriau yn nhermau'r targedau gwastraff hefyd. Cadarnhawyd bod y pandemig wedi arwain at symiau sylweddol uwch o wastraff, ac roedd hyn yn un o'r ffactorau a oedd wedi effeithio ar y targedau, ond sicrhawyd yr Aelodau fod y Gwasanaeth yn edrych ar y strategaeth wastraff, a sut y gellir ei haddasu wrth symud ymlaen ac y byddai angen i'r Cyngor wneud nifer o benderfyniadau allweddol yn ystod ail hanner 2022.

Tynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol sylw'r Aelodau at y cynnydd a wnaed yn nhermau ei faes gwasanaeth. Roedd y trafodaethau wedi canolbwyntio ar y Strategaeth Addysg ddiwygiedig. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y strategaeth wedi gosod rhai seiliau gwych ar gyfer maes addysg, er gwaethaf heriau'r pandemig. Cynghorwyd y Cabinet bod y tîm yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu strategaeth newydd oherwydd byddai'r strategaeth bresennol yn dod i ben yn 2022. Cadarnhawyd y byddai'r strategaeth newydd yn ystyried effaith COVID-19, a'r gobaith oedd y byddai'r strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet yn ystod y misoedd i ddod.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol at y lefelau sylweddol o absenoldebau staff a disgyblion oherwydd salwch ar hyd y cyfnod hwn, roedd ysgolion wedi parhau ar agor, a chanmolodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y Penaethiaid am eu hymdrechion i sicrhau bod pethau'n symud yn ystod y pandemig COVID-19.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol sylw'r Aelodau at y Crynodeb Cynhwysiant, sy'n canolbwyntio'n drwm ar effaith gwaharddiadau. Nodwyd bod angen mwy o waith mewn cysylltiad â hyn.

Canmolwyd llyfrgelloedd am eu gwaith ers ail-agor ym mis Ebrill 2021 a rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r gwaith i hwyluso e-fenthyciadau a gwasanaethau clicio a chasglu ac roedd y data hyn yn cael eu casglu i fwydo i mewn i ddarpariaeth yn y dyfodol.

Yn nhermau Rhyddid Gwybodaeth, darparwyd diweddariad ar dargedau perfformiad, er bod ymatebion wedi gwella yn ystod chwarteri 1 a 2, disgwyliwyd y byddai'r rhain yn cynyddu ac y rhagorir arnynt o ganlyniad i 2 benodiad pellach i'r tîm hwn.

Cyfeiriwyd hefyd at yr heriau yn nhermau recriwtio i swyddi hollbwysig ac roedd gwaith yn cael ei wneud i ddadansoddi a nodi'r rhesymau sy'n sail i'r materion hyn.

Cydnabu'r Cabinet y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan bob Cyfadran a rhannodd y pryderon ynglŷn â'r heriau recriwtio a chadw. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y mater hwn yn derbyn sylw a'u bod yn croesawu'r lefel o fonitro gan yr Asesiad o Berfformiad Corfforaethol er mwyn arddangos y cynnydd, pan oedd angen gwelliannau a sut yr oedd y Cyngor yn gweithio ar gyfer ei breswylwyr.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

I adolygu a thrafod y ddogfen atodedig (Atodiad 1), ac y byddai'r wybodaeth yn y ddogfen yn cael ei herio a'i chraffu.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2020-2021

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn darparu diweddariad ar gynnydd y Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021 mewn perthynas â'r camau gweithredu yng Nghynllun

Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-2024. Galwyd ar yr Aelodau i gymeradwyo'r adroddiad i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Nodwyd y cafodd yr adroddiad ei ddatblygu i arddangos ymrwymiad y Cyngor i gyflawni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Roedd yr adroddiad yn disgrifio sut y byddai'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus er mwyn datblygu cydraddoldeb a chynhwysiant i bob grŵp gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn ogystal, nodwyd bod angen yr adroddiad er mwyn dangos cydymffuriad y Cyngor â chyrff rheoliadol, er enghraifft y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Atgoffwyd Aelodau'r Cabinet o'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi, sef 31 Mawrth.

Nodwyd bod yr adroddiad yn disgrifio ymateb y Cyngor i'r pandemig COVID-19 a sut y cafodd preswylwyr agored i niwed eu cefnogi drwy'r Cynllun Cyfeillio a thrwy ddarparu gwasanaethau allweddol, gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hybiau Gofal Plant.

Nodwyd bod yr adroddiad yn darparu trosolwg o'r ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd yn 2021 mewn cysylltiad â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024. Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet yr heriau a ddaeth i'r amlwg yn sgil y pandemig ac esboniodd ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod ddefnyddio dulliau amgen i ymgysylltu â phreswylwyr. Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd y dyddiadau o bwys a ddefnyddiwyd yn y calendr blynyddol i ddathlu ac addysgu, gan gynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Mis Hanes Pobl Dduon. Croesawodd y Cabinet yr ymgais i godi ymwybyddiaeth drwy ddyddiadau ar y calendr blynyddol a galwyd i hyrwyddo cydraddoldeb yn gyffredinol. Croesawodd y Cabinet y gydnabyddiaeth barhaus i faterion cydraddoldeb a diolchodd yr Aelodau i Swyddogion am eu gwaith caled mewn cysylltiad â'r digwyddiadau a gafodd eu nodi a'u dathlu.

Soniodd yr Aelod Cabinet am y Cynllun Cyfeillio, a'r adborth yr oedd yr Awdurdod wedi'i dderbyn gan breswylwyr. Nodwyd bod 590 aelod o staff wedi dod ymlaen i gefnogi 1,550 a mwy o breswylwyr a oedd wedi mynegi diddordeb yn y Cynllun. Cydnabuwyd bod yr adborth hwn yn gadarnhaol iawn gyda lefelau cyfradd ymateb boddhad o 97.3%. Mynegodd y Cabinet eu balchder yn y ffordd yr oedd gwirfoddolwyr wedi ymrwymo i gefnogi pobl agored i niwed yn ystod cyfnod tyngedfennol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog:-

I gymeradwyo'r adroddiad monitro a gwella blynyddol i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor erbyn y dyddiad cau, sef 31 Mawrth.

8. STRATEGAETH Y GYMRAEG BUM MLYNEDD 2022-2027

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar Strategaeth y Gymraeg Bum Mlynedd 2022-2027, yn unol â Safonau 145 a 146 yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

Cynghorwyd y Cabinet bod gofyniad i'r Awdurdod ddatblygu strategaeth bum mlynedd sy'n datgan sut y mae'n cynnig hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'n rhaid i'r strategaeth gynnwys targed i gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg a datganiad yn esbonio sut y bwriedir cyflawni'r targed. Yn ogystal, mae'n rhaid adolygu a diwygio'r strategaeth ar gyloch pum mlynedd ac mae'n rhaid adrodd ar y cynnydd ar ddiwedd pob cyfnod o bum mlynedd.

Nodwyd y cafodd y strategaeth ei datblygu mewn ymgynghoriad ac ymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol. Fel rhan o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu, cysylltwyd â phob Maes Gwasanaeth

yn y Cyngor a phwysleisiodd yr Aelod Cabinet bwysigrwydd bod pob Maes Gwasanaeth yn mabwysiadu'r camau gweithredu yn y strategaeth hon ac yn gweithio i sicrhau y gall dinesydd ymgysylltu'n naturiol â'r Gymraeg. Cynghorwyd yr Aelodau bod y rhanddeiliaid wedi'u rhestru yn y Cynllun Gweithredu a chawsant eu cyfeirio at yr Adroddiad Ymgysylltu am fanylion pellach.

Cyfeiriwyd at sut y byddai'r strategaeth hon yn cysylltu hefyd gyda'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Croesawyd y strategaeth gan yr Aelodau a oedd yn cydnabod arwyddocâd hyrwyddo'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog:-

I gymeradwyo Strategaeth y Gymraeg Bum Mlynedd 2022-2027 i'w chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

9. DATBLYGU CANOLFAN AMLBWRPAS I YMWELWYR YM MHARC PENALLTA

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Canolfan Amlbwrpas i Ymwelwyr ym Mharc Penallta drwy dderbyn y Grant Amnewid a gynigir gan Lywodraeth Cymru am swm o £903,000 yn amodol ar amod/amodau grant a ragwelir. Roedd yr adroddiad yn cynghori'r Cabinet hefyd ynghylch y prinder cyllid dros ben a ragwelir ar gyfer y cynllun ac yn argymhell y gellir ariannu hyn drwy gyllideb cyfalaf y Prosiectau Corfforaethol.

Cyflwynwyd gweledigaeth tymor hir y Cyngor i ddatblygu Canolfan Amlbwrpas i Ymwelwyr ym Mharc Penallta, a chynghorwyd yr Aelodau fod cefnogaeth y cyhoedd i'r datblygiad wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig COVID-19, gyda chynnydd yn y defnydd o Barc Penallta gan bobl leol ac ymwelwyr.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet fod disgwyl i gost y prosiect fod ar breimiwm oherwydd cysyniadau'r dyluniad a'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r pandemig a Brexit, nad oeddent wedi'u cynnwys yn y gwerthusiad cychwynnol. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi'r prosiect drwy gynnig grant amnewid o £903,000 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn y flwyddyn ariannol 2021-22. Nododd y Cabinet fod y prosiect wedi'i gyflwyno ar gyfer tendr tua 7 mis yn ôl a chyfanswm y tendr isaf a ddychwelwyd oedd dros ddwy filiwn. Fodd bynnag, roedd cyfnod y tendrau wedi dod i ben a byddai angen ailadrodd yr ymarfer tendro os oedd y prosiect am symud ymlaen.

Roedd swyddogion yn gweithio i sicrhau cyllid ychwanegol ond, yn seiliedig ar yr ymarfer tendro diwethaf, roedd diffyg o £1,078,000 oherwydd bod y grantiau a sicrhawyd hyd yma a dyraniadau cyfalaf Cefn Gwlad wrth gefn yn creu cyfanswm o £1,059,000. Cadarnhawyd bod angen sicrhau diffyg cyllid o £1,268,000, gan gynnwys 10% wrth gefn o £190,000, os oedd y prosiect am symud ymlaen.

Croesawodd Aelodau'r Cabinet y buddsoddiad sylweddol yng nghanolfannau hamdden awyr agored y Cyngor, sydd wedi gweld twf yn eu defnydd o ganlyniad i'r pandemig ac adeiladu canolfan ar sail y fethodoleg fwyaf cynaliadwy, a oedd yn darparu cyfle i osod esiampl wrth leihau allyriadau carbon.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod yr anawsterau a oedd yn gysylltiedig â'r broses dendro ac yn gwerthfawrogi ymdrechion y Swyddogion i symud y prosiect ymlaen a gwnaed cofnod o'u gwerthfawrogiad i bawb a oedd yn gysylltiedig â hyn.

Yn nhermau hyrwyddo twristiaeth a llesiant, mynegodd y Cabinet hyder y byddai'r prosiect hwn yn profi i fod yn ased cymunedol gwerthfawr a fyddai'n annog mwy o ddefnydd o'r amgylchedd awyr agored gan breswylwyr ac ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog:-

1. I gymeradwyo'r Grant Amnewid o £903,000 a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, ac y byddai'r ganolfan amlbwrpas i ymwelwyr yn cael ei chwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23, yn unol â'r amod/amodau grant a ragwelir.
2. Neilltuo £1,268,000 o gyllideb cyfalaf Prosiectau Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflawni, yn amodol ar delerau manwl y llythyr amrywiad grant gan Lywodraeth Cymru.

10. BWRDD ADFYWIO – CYNIGION PROSIECT

Ystyriwyd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyrannu £24,950 o gyllid Trwydded i Arloesi, i Wasanaeth Cerddoriaeth Caerffili gynnig dau brosiect arloesol newydd i ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol, a dyraniad pellach o £16,000 o'r un cyllid Trwydded i Arloesi ar gyfer Tîm Statudol Caerffili, sy'n gweithio gyda'r Gwasanaethau Digidol i gynnig ciwbiau TG mewn 2 ysgol fel cynllun peilot. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyraniad o £136,200 o Gyllideb Datblygu y Bwrdd Adfywio tuag at y gost gyffredinol o £906,000 i adeiladu pumed uned gyflogaeth ym Mharc Cyflogaeth Tŷ Du, Nelson.

Nodwyd bod y Bwrdd Adfywio wedi ystyried prosiect ychwanegol ar gyfer cyllid, ond oherwydd ei natur gymhleth a'i gynnwys sensitif yn fasnachol, byddai'n cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar wahân. Rhagwelwyd y byddai eithriadau yn berthnasol i'r adroddiad.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet gefnogaeth wleidyddol drawsbleidiol i'r Bwrdd ddyrannu'r cyllid. Cadarnhawyd bod £3.75 miliwn wedi'i ddyrannu i'r Bwrdd a'r Cynllun Trwydded i Arloesi.

Croesawodd yr Aelodau y prosiectau a thynnwyd sylw at rôl hollbwysig Gwasanaeth Cerddoriaeth Caerffili yn nhermau cynhwysiant ac ail-ymgysylltu plant ym myd addysg.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodwyd yn adroddiad y Swyddog:-

1. I gymeradwyo £24,950 o gyllid Trwydded i Arloesi i Wasanaeth Cerddoriaeth Caerffili ar gyfer 2 brosiect arloesol.
2. I gymeradwyo £16,000 o gyllid Trwydded i Arloesi a'i ddyrannu i Dîm Statudol Caerffili ar gyfer cyflwyno dau Giwb TG.
3. I gymeradwyo dyraniad o £136,000 o Gyllideb Bwrdd y Prosiect Adfywio i gyflawni uned gyflogaeth ychwanegol yn Nhŷ Du, Nelson.
4. Nodi'r cais pellach i gronfa datblygu'r Bwrdd Adfywio, fel y nodwyd mewn adroddiad eithrio'r cabinet.

11. PRAWF BUDD Y CYHOEDD

Bu i'r Aelodau ystyried y Prawf Budd y Cyhoedd a daeth i'r casgliad, at ei gilydd, fod y budd cyhoeddus o gynnal yr eithriad yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth a:-

PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid eithrio'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd y tebygolrwydd y byddai gwybodaeth esempt yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 yn Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

12. CAERFFILI 2035 – CRONFA GAFFAEL

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog a chytunwyd ar hynny'n unfrydol drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo'r argymhellion yn 3.1 (i), (ii), (iii), (iv) a (v).

Daeth y cyfarfod i ben am 11.49 A.M.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 23 Mawrth 2022.

CADEIRYDD